

CLYNNOG, MORYS (neu MAURICE CLENOCKE), diwinydd Catholig

Enw: Morys Clynnog
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwinydd Catholig
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Geraint Bowen

Hanoedd, yn ddiaw, o Glynog, Sir Gaernarfon. Ymaelododd â Choleg Eglwys Crist, Rhydychen, gan raddio yn B.C.L. yn 1548. Bu'n gaplan i'r Cardinal Reginald Pole, ac wedi cyfnod yn rheithor Orpington, Caint, ac yn ddeon Shoreham a Croydon, rhoddwyd iddo, yn 1556, gan esgob Goldwell, Llanelwy, reithoriaeth Corwen. Yn 1558, ar farw [Dr. William Glyn](#), dyrchafwyd ef yn esgob Bangor. Ond cyn iddo gael ei gysegru, bu farw'r frenhines Mari, a dewisodd yntau alltudiaeth yn hytrach na chydymffurfio â'r drefn newydd o dan Elisabeth. Gyda'r esgob Goldwell a [Gruffudd Robert](#), archddiacon Môn, cyrhaeddodd Rufain yn 1561. Apwyntiwyd Goldwell yn warden yr Ysbyty Seisnig yno, [Gruffudd Robert](#), yn 1564, yn gaplan, a Morys Clynnog, yn 1567, yn 'Camerarius.' Yn 1577 gwnaed ef yn warden. Y flwyddyn ddilynol llwyddodd [Owen Lewis](#), archddiacon Hainault, ac yn ddiweddarach esgob Cassano, i sefydlu coleg Seisnig yn Rhufain, a dewiswyd Morys Clynnog yn rheithor gyda thri Jesiuit i'w gynorthwyo i hyfforddi'r myfyrwyr, yn Gymry ac yn Saeson. Dywedid bod Clynnog yn ffafrio'r Cymry, a bu terfysg. Ond tybir bod a wnâi'r ffaith fod y Jesiuitiaid yn dymuno cael llwyr reolaeth ar y coleg â hyn. Fodd bynnag, bu raid iddo ymddeol yn 1579, wedi i'r Saeson, a oedd yn bygwth ymado â'r coleg, oni weithredid, gyflwyno deiseb i'r Cardinal Morone yn protestio yn erbyn rheolaeth Morys Clynnog a danfon dirprwyaeth i'r pab yn mynnu ei ddiswyddo.

Apwyntiwyd y Tad Agazzari, Jesiuit, i'r swydd. Yn y flwyddyn 1580 cawn Morys Clynnog yn byrddio llong yn Rouen. Credir iddo foddi yn gynnar yn 1581, ar ei ffordd i Sbaen.

Cyhoeddodd Morys Clynnog lyfr bychan ar lun catecism yn 1568, sef *Athravaeth Gristnogavl*. [Gruffudd Robert](#) a luniodd y rhagymadrodd, ac ym Milan, yr Eidal, yr argraffwyd ef.

Awdur

Dr Geraint Bowen

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Foster, *Alumni Oxonienses*

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1903

A History of the Venerable English College, Rome an account of its origins and work from the earliest times to the present day (Llundain Efrog Newydd 1920)

G. J. Williams (gol.), *Gramadeg Cymraeg yn ôl yr argraffiad y dechreuwyd ei gyhoeddi ym Milan yn 1567* (Caerdydd 1939)

gweler hefyd C. 1/1342/26 (P.R.O.)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Maurice Clenock](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [9961429](#)

Wikidata: [Q13130254](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

